Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

18 Tachwedd 2020

Annwyl Weinidog,

**Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Gymraeg**

Trafododd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu iteriad diweddaraf y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (‘y Fframwaith’) yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd.

Clywodd y Pwyllgor gan Dyfan Sion, o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Wyn Thomas, Dyfodol i'r Iaith, Robat Idris, Cymdeithas yr Iaith, a Dylan Foster Evans o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru.

Nodaf y gofynion yn adran 60B(4)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'u mewnosodwyd gan adran 3 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw argymhelliad a wneir gan un o bwyllgorau’r Senedd. Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech ystyried ein hargymhellion fel y'u nodir yn y llythyr hwn, sydd â’r nod o fynd i'r afael â materion a godwyd wrth i ni drafod ac ystyried y Fframwaith.

At hynny, nodaf y gofyniad yn adran 60B(6) i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd yn egluro sut y maent wedi ystyried unrhyw argymhellion o'r fath gan y Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at ddarllen y datganiad hwn i weld sut y cafodd argymhellion y Pwyllgor eu hystyried.

**Prif ffrydio'r Gymraeg**

Yn y dystiolaeth a gafwyd lleisiwyd pryderon am y ffordd y mae'r Fframwaith yn ymdrin â'r Gymraeg. Clywodd y Pwyllgor am yr angen i brif ffrydio'r Gymraeg drwy'r Fframwaith i gyd a sicrhau bod cysylltiadau cryfach â strategaethau perthnasol eraill.

Dywedodd y rhai a siaradodd â'r Pwyllgor fod y Fframwaith ar y lefel strategol genedlaethol yn cyfeirio sawl gwaith at y Gymraeg, ond bod y sylwadau’n tueddu i fod yn rhai mwy cyffredinol ar y lefel ofodol ranbarthol.

Roedd tystion yn poeni nad oedd digon o atebolrwydd am gyflawni'r canlyniadau ar gyfer y Gymraeg ar lefel ranbarthol. Er enghraifft, dywedodd Dyfan Sion o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

> 'Y fframwaith cenedlaethol sydd ar y top, ond yn bwydo i mewn i hwn hefyd mae gennych chi'r cynlluniau datblygu lleol ac… mae yna ddisgwyliad ar bob un o'r cynlluniau yna i fod yn cynnwys strategaeth ofodol ar gyfer y Gymraeg. Felly, ia, mae cyfraniad y cysylltiad yna ar lefel genedlaethol, ond fel rydych chi'n mynd yn is lawr wedyn i'r lefel ranbarthol, mae yna le i gryfhau hynny, dwi'n meddwl.'[1]

Soniodd tystion am yr angen i fesur a monitro cyfraniad y Fframwaith at strategaeth Cymraeg 2050. Dywedodd Dyfan Sion:

> 'un o'r pethau pwysicaf dŷn ni'n credu ydy'r elfen adrodd a monitro a sicrhau bod y fframwaith yn arwain at gynnydd a chyfraniad tuag at strategaeth Cymraeg 2050. Felly, fel dwi'n ddweud, mae yna elfennau o brif-ffrydio o fewn y fframwaith, ac mae yna gwestiynau pellach wedyn ynglŷn â sut fydd o'n cael ei weithredu a'i fonitro.'[2]

O ran monitro cyfraniad y fframwaith at strategaeth Cymraeg 2050, dywedodd Dyfan Sion 'mae yna gyfraniad hefyd i awdurdodau lleol i'w wneud fel rhan o hynny.'[3]

Nododd fod angen i'r Fframwaith gysylltu â Chynlluniau Cymraeg mewn Addysg.[4] Pwysleisiodd Dyfan Sion yr angen i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu cyfleoedd i ffurfio partneriaethau y tu allan i'r strwythurau rhanbarthol arfaethedig. Rhoddodd enghraifft o gynllun Arfor ar gyfer y Gymraeg, sy'n bartneriaeth rhwng pedair sir yng ngorllewin Cymru.[5]

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r lefel ranbarthol o gynllunio gofodol yn y Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu ar gyfer twf partneriaethau sy'n mynd i'r afael â materion penodol, megis cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg.

Dylai'r Fframwaith nodi sut y bydd y cyfraniad at ganlyniadau Cymraeg 2050 yn cael ei fesur a'i fonitro.

**Atebolrwydd ar lefel ranbarthol**

Roedd pryderon ynghylch atebolrwydd y strwythurau rhanbarthol a gynigiwyd yn y Fframwaith. Er enghraifft, dywedodd Dyfan Sion:

> 'Mae yna ddiffyg atebolrwydd i strwythurau rhanbarthol yn gyffredinol. Fel corff sy'n rheoleiddio dyletswyddau statudol, mae hynny'n broblem, achos mae'r dyletswyddau statudol sydd gennym ni, safonau'r Gymraeg a nifer o ddyletswyddau statudol mewn meysydd eraill, yn cael eu gosod fel arfer ar gyrff

[1] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p37
[2] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p15
[3] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p37
[4] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p36
[5] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p116

> unigol, endidau cyfreithiol. Felly, pan mae yna gymaint o benderfyniadau a gwaith wedyn yn digwydd drwy bartneriaeth ar lefel rhanbarthol, mae yna fwlch atebolrwydd, o bosib'.[6]

Ysgrifennodd Wyn Thomas, o Dyfodol i'r Iaith:

> 'Mae gofid bod grym yn symud at gyrff anetholedig. Mae pobl yn deall rôl y cynghorau sir yn llunio Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae pobl wedi ymgyfarwyddo â dylanwad Llywodraeth Cymru. Mae mwy o bryder am y Cynlluniau Datblygu Strategol. Nid yw'n amlwg pa rym sydd gan y cyrff yma na pha mor atebol ydynt.'[7]

Roedd llywodraethiant y byrddau rhanbarthol hefyd yn destun pryder i Robat Idris, Cymdeithas yr Iaith, a ddywedodd 'bydd yna bobl sydd heb eu hethol yn eistedd ar y byrddau hynny, sydd ddim yn beth iach iawn, dwi ddim yn meddwl. Rydych chi fel arfer yn gofyn pam maen nhw yna.'[8]

Dywedodd hefyd y byddai'r dull rhanbarthol a'r pwyslais ar greu cysylltiadau cryfach ag ardaloedd trefol yn Lloegr yn niweidiol i'r Gymraeg oherwydd 'mae'n tynnu'r ffocws economaidd hyd yn oed yn fwy tua'r dwyrain pan rydyn ni yn ardaloedd y gorllewin yn cael trafferthion enfawr fel y mae hi'.[9] Dywedodd:

> 'beth rydyn ni'n gweld ydy, yn hytrach na gweld Cymru fel uned, rydyn ni'n gweld tri rhanbarth sydd yn cael eu cyplysu yn economaidd, a'r deisyfiad yna yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro ar ôl tro, efo gogledd Lloegr, canolbarth Lloegr, de-orllewin Lloegr. Fel Cymdeithas yr Iaith, rydyn ni'n gweld—o'r gorau, fedrwch chi ddadlau bod yna fanteision economaidd i hynny, ond y duedd fydd, buaswn i'n ei ddweud, i wanhau'r Gymraeg yn y gymuned'.[10]

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd strwythurau rhanbarthol ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu sicrhau mwy o dryloywder o ran gwaith y byrddau rhanbarthol.

### Yr angen i gydbwyso'r ffocws rhwng canolfannau gwledig a threfol

Roedd pryder bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn rhoi gormod o bwyslais ar dwf mewn canolfannau trefol ar draul cymunedau mewn ardaloedd gwledig. Dywedwyd wrth y Pwyllgor y dylid rhoi llawer mwy o bwyslais a ffocws ar gymunedau lleol o fewn y fframwaith, yn enwedig gan fod y cyd-destun cymdeithasol ac economaidd wedi newid mor ddramatig o ganlyniad i'r pandemig.

Er enghraifft, dadleuodd Robat Idris fod y Fframwaith, yn ôl pob golwg, yn seiliedig ar gynlluniau economaidd a phrosiectau seilwaith ar raddfa fawr fel Wylfa. Dywedodd fod

---

[6] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p115
[7] Tystiolaeth ysgrifenedig Dyfodol i'r Iaith
[8] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p119
[9] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p119
[10] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p25

enghreifftiau lle nad oedd prosiectau o’r fath wedi digwydd yn y pen draw, ond bod y prosiectau seilwaith mawr hyn wedi 'gyrru cynllun datblygu lleol', a bod hyn yn ei dro:

> 'yn llywio'r gofyn am dai a lle roedden nhw yn mynd i gael eu lleoli.  Rŵan, mae gofyn inni, dwi'n meddwl, adeiladu o'r cymunedau i fyny, yn hytrach nag o'r top i lawr.'[11]

Aeth yn ei flaen i ofyn faint o drafodaeth a gafwyd o ran datblygu fframwaith sy'n 'berthnasol i gymunedau lleol', gan nodi:

> ‘mae'n ymddangos, i raddau, fod yr ardaloedd gwledig yn cael eu gweld, bron iawn, fel rhyw ysgyfaint i'r ardaloedd trefol gael eu mwynhau, os leiciwch chi, a bod y boblogaeth sydd yn byw yna yn dueddol o fod yna i'w gwasanaethu nhw.'[12]

Roedd Dyfan Sion hefyd yn credu bod angen mwy o gydbwysedd rhwng twf canolfannau gwledig a threfol. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> 'y prif beth buaswn i'n ei ddweud ydy dwi'n meddwl bod angen i'r fframwaith ymateb yn well i'r newidiadau cymdeithasol sydd wedi digwydd yn sgil COVID. Dwi'n meddwl petai'r fframwaith yn cael ei drafftio heddiw, efallai y byddai yna lai o ganolbwyntio ar ganolfannau twf trefol yn y fframwaith.  A beth rŷn ni i gyd wedi ei ddysgu, dwi'n meddwl, o'r argyfwng COVID ydy ei bod hi'n bosib i ni fyw a gweithio mewn unrhyw leoliad yng Nghymru; mae'n bosib i ni weithio o bell a gweithio'n hyblyg.  A dwi'n meddwl bod y Llywodraeth ei hun hefyd, trwy bolisïau gweithio o bell, yn canolbwyntio'n fwy ar ganolfannau lleol erbyn hyn, yn hytrach na chanolfannau dinesig a threfol, felly mae hynny'n rhywbeth o fewn y fframwaith byddwn i'n dymuno i'r Llywodraeth edrych eto arno fo.'[13]

Clywodd y Pwyllgor hefyd fod angen seilwaith trafnidiaeth addas, fel trafnidiaeth gyhoeddus, a chysylltiadau band eang cyflym, er mwyn i gymunedau gwledig a lleol allu manteisio ar gyfleoedd gwaith.

Hoffai'r Pwyllgor weld mwy o wybodaeth am syniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer 'canolfannau lleol'. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Fframwaith yn cael ei ddiweddaru i ystyried:

- dull mwy cytbwys o ddatblygu canolfannau trefol a gwledig sy’n ffynnu yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar ganolfannau trefol wedi'u hamgylchynu gan 'gefnwlad' wledig.
- patrymau gweithio newydd, o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn ddiweddar, sydd wedi cynyddu’r angen am fand eang cyflym, dibynadwy a hygyrch ym mhob rhan o Gymru;

[11] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p27
[12] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p26
[13] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020, p58

**Tai fforddiadwy**

Galwyd am i'r Fframwaith fynd i'r afael â'r broblem o ran tai fforddiadwy yn fwy cadarn. Mae cysylltiad rhwng gallu pobl o ardaloedd Cymraeg i fyw a gweithio yn eu cymunedau a phrisiau tai yn yr ardaloedd hyn. Dywedodd Robat Idris wrth y Pwyllgor:

> 'oherwydd bod gymaint o eiddo yn mynd allan o gyrraedd pobl leol, mae hynny'n gwanhau'r cymdeithasau cynhenid. Felly, dwi'n meddwl bod yna le mawr i'r system gynllunio edrych ar yr holl gwestiwn o dai.'[14]

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai'r Fframwaith ganolbwyntio mwy ar 'gartrefi cymdeithasol' yn hytrach na 'thai fforddiadwy', gan y byddai hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion tai lleol, dywedodd Dyfan Sion:

> 'Oherwydd prisiau tai uchel a'r canran uchel o ail gartrefi mewn rhai cymunedau, mae o'n anodd iawn i rai pobl allu aros yn eu cymunedau os ydyn nhw'n dymuno gwneud ar hyn o bryd. Yn amlwg, mae hynny'n fater o gyfiawnder cymdeithasol hefyd. Felly, o safbwynt tai fforddiadwy a chartrefi cymdeithasol, y risg ydy bod tai fforddiadwy yn fwy agored i'r farchnad a bod yna lai o reolaeth a llai o allu i gynllunio a darparu. Felly, os ydy canolbwyntio'n fwy ar gartrefi cymdeithasol yn gwella'r broblem sy'n wynebu lot o gymunedau Cymraeg, a bod hynny'n gallu digwydd ynghynt, yna dwi'n cytuno efo'r sylw yn y cwestiwn.'[15]

Galwyd hefyd am i'r Fframwaith fynd i'r afael â'r pwysau a roddir ar ardaloedd Cymraeg o ganlyniad i ail gartrefi, a'r ffaith na all pobl leol gystadlu yn y farchnad. Dywedwyd bod y pwysau wedi cynyddu o ganlyniad i bandemig COVID-19 a bod pryderon mewn cymunedau lleol ynghylch perchnogion ail gartrefi yn teithio yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud.

Dywedodd Robat Idris wrth y Pwyllgor fod 40 y cant o gartrefi yng Ngwynedd wedi cael eu gwerthu fel ail gartrefi yn ddiweddar.[16] Awgrymodd y dylai fod uchafswm o ran nifer y cartrefi sydd ar gael mewn ardaloedd twristiaeth. Dywedodd:

> 'mae eisiau i ni edrych ar ddeddfwriaeth ynglŷn ag a ydy o'n foesol gywir bod pobl efo ail gartref, neu ail dŷ, lle nad ydy pobl eraill ddim efo nhw. Mae yna le i edrych ar ardaloedd penodol lle mae twristiaeth wedi mynd yn ordwristiaeth, lle dylid pennu uchafswm, os liciwch chi, o dai sydd yn gwasanaethu, neu farchnad ail gartrefi, neu fasnach dwristiaeth mewn rhyw ffordd, ac mae hynny'n cynnwys Airbnb. Mae yna enghreifftiau mewn llefydd eraill lle rydych chi'n tynnu'r pwysau i raddau a phethau felly.'[17]

Ysgrifennodd Wyn Thomas:

[14] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p27
[15] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p81
[16] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p83
[17] Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 5 Tachwedd 2020 p84

> ‘Byddai’n gam sylweddol i ddiogelu’r cymunedau Cymraeg pe byddem yn dilyn trywydd Jersey a Guernsey.  Yno, clustnodir canran sylweddol o dai ar gyfer trigolion sydd wedi byw ar yr ynysoedd trwy eu hoes neu sydd â chysylltiad hir ac amlwg â’r lle.  Byddai gweddill y stoc tai ar werth ar y farchnad agored.'[18]

Clywodd y Pwyllgor fod y cydbwysedd rhwng perchnogaeth ail gartrefi, cartrefi gwyliau, a pherchnogaeth cartrefi fforddiadwy yn cael effaith ar allu pobl o ardaloedd Cymraeg i fyw a gweithio yn eu cymunedau. Mae effaith prisiau tai a pherchnogaeth ail gartrefi a chartrefi gwyliau ar y Gymraeg yn elfen bwysig y mae angen ei hystyried mewn strategaeth gynllunio sy'n ceisio cyflawni’r nod a ganlyn:

> 'Os mai’r Gymraeg yw iaith bob dydd y gymuned, caiff gwaith datblygu ei reoli er mwyn sicrhau bod swyddi a chartrefi ar gael fel y gall yr iaith barhau’n ganolog i hunaniaeth y cymunedau hynny’.[19]

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai’r cysylltiad rhwng cartrefi cymdeithasol a thai fforddiadwy mewn ardaloedd Cymraeg a'r effaith ar y Gymraeg gael eu harchwilio’n fwy trylwyr yn y Fframwaith.

Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig fel rhan o'u gwaith yn ystyried y Fframwaith.

Yn gywir,

Helen Mary Jones

**Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

---

[18] Dyfodol i’r Iaith
[19] Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, pp54